Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG*

***10.00 AM DYDD GWENER, 21 MAI 2021***

***O Bell Trwy Teams***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 3 - 8)*

5. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

6. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 9 - 22)*

7. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot**

**Dydd Gwener, 14 Mai 2021**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.M.Penry**

**Is-gadeirydd:** **R.W.Wood**

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale, S.A.Knoyle a/ac S.Jones

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale, S.A.Knoyle a/ac S.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, M.Roberts, N.Headon, C.Plowman, P. Jackson a/ac A.Lewis |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr M.Harvey a/ac A.Wingrave |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet newydd dros Strydlun a Pheirianneg.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2021.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Cynllun Rheoli Coedyddiaeth

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Rheoli Coedyddiaeth y cyngor i'r Pwyllgor.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y cynllun rheoli wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn unol â hynny; un o'r prif newidiadau a amlygwyd oedd ei fod bellach yn cynnwys gwybodaeth am glefyd coed ynn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â manylion yr archwiliadau coed, yn enwedig yr ymyrraeth â cheblau uwchben a'r ymyrraeth â derbyniad lloeren/teledu. Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod cyfrifoldeb cyfreithiol (ar y cwmnïau cyfleustodau perthnasol) i sicrhau bod yr ardal o amgylch ceblau uwchben yn cael ei chlirio er mwyn darparu gwasanaeth di-dor i'w cwsmeriaid; Gofynnodd yr Aelodau pe bai stryd neu ardal benodol yn cael problemau oherwydd ymyrraeth â derbyniad lloeren/teledu, a fyddai gan y cwmnïau lloeren yr opsiwn i dorri'r coed hynny yn ôl pe dymunent. Cadarnhaodd swyddogion na fyddai hyn yn digwydd, gan nad oedd ganddynt yr un pwerau statudol; rhoddwyd y pwerau statudol ar waith ar gyfer ymyrryd â cheblau uwchben er mwyn diogelu adeiledd y ceblau.

Yn dilyn y drafodaeth, gofynnwyd a ellid gwneud unrhyw beth pe bai coed yn ymyrryd â'r rhyngrwyd neu signal lloeren i stryd, gan fod mwy o bobl yn gweithio gartref ac yn dibynnu ar y cysylltiadau hyn. Cadarnhaodd swyddogion yn y mathau hyn o amgylchiadau lle yr effeithiwyd ar ardal, y byddai angen iddynt weithio gyda darparwyr gwasanaethau i nodi sut y gallent ddarparu gwasanaethau i breswylwyr e.e. drwy gebl; gan ystyried y polisi presennol, ni allai'r cyngor dorri coed i lawr er mwyn gwella signal lloeren gan ei fod dan lawer o rwymedigaethau statudol i amddiffyn coed a bioamrywiaeth. Ychwanegwyd bod adegau pan oedd gan breswylwyr bryderon ynghylch golau, dail, cysylltiadau lloeren a diogelwch y coed; roedd yn rhaid i fanylion y canllawiau yn yr adroddiad adlewyrchu'r rhwymedigaethau a grybwyllwyd i amddiffyn coed.

Mewn perthynas â systemau gwraidd, soniwyd bod gwreiddiau'r coed wedi achosi i'r palmentydd godi mewn rhai ardaloedd, gyda rhai ohonynt yn rhwystro'r llwybrau ac yn golygu nad oedd preswylwyr yn gallu eu defnyddio. Gofynnwyd i swyddogion am wybodaeth am sut y gellid datrys y math hwn o fater; pan fydd swyddogion yn derbyn adroddiadau am y digwyddiadau hyn, bydd rhywun yn cael y dasg o archwilio'r ardal, ac os oes angen, byddai'r tarmac yn cael ei dorri allan a byddai proses o'r enw 'tocio gwraidd' yn cael ei chynnal, cyn ailosod y tarmac wedyn. Nodwyd nad oedd y broses hon bob amser yn bosib, ond bod swyddogion yn anelu at ei gwneud gan ei bod yn cadw'r goeden ac yn cadw'r briffordd mewn cyflwr ymarferol.

Esboniodd yr Aelodau eu bod wedi derbyn cwynion dros amser mewn perthynas ag ymyriadau coed, a oedd yn cynnwys y rhai nad oeddent ar dir sy'n eiddo i'r cyngor; Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion ystyried pwy fyddai'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r materion a adroddwyd mewn perthynas â choed nad ydynt ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, p'un ai'r cyngor neu ddarparwyr/asiantaethau partner yw hyn, gan fod hyn yn bwysig wrth symud ymlaen.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Tîm Gofal Strydoedd yn penodi aelod ychwanegol o staff, fel rhan o gynyddu'r gwaith arolygu coed a oedd yn cael ei wneud yn gysylltiedig â'r clefyd coed ynn; bydd gan y Swyddog Coed gylch gwaith ehangach hefyd i edrych ar bob ardal arall o amgylch coed, gan gynyddu gallu yn hynny o beth.

Gofynnwyd i swyddogion a edrychwyd ar faterion yn unigol gan y gallai fod amgylchiadau arbennig yn gysylltiedig, er enghraifft, coed yn rhwystro golygfeydd allan o ffenestri gan achosi problemau lles meddyliol i unigolion. Drwy gydol yr adroddiad a ddosbarthwyd, nodwyd mai arweiniad oedd yr wybodaeth yn y cynllun rheoli; felly gallai'r ffordd y caiff un achos ei ddatrys fod yn wahanol i achos arall, yn dibynnu ar fanylion yr achos.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 4. EITEMAU BRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid trafod yr eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rhesymau dros y brys:
Oherwydd yr elfen amser.

## 5. FFRAMWAITH GWASANAETHAU PEIRIANNEG SIFIL RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN A CHANOLBARTH CYMRU 2021 I 2025 (FEL YR AMGAEIR YM MHAPURAU BWRDD Y CABINET)

Cyflwynwyd Fframwaith Gwasanaethau Peirianneg Sifil Rhanbarthol newydd De-orllewin a Chanolbarth Cymru i'r Aelodau.

Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor mai'r adroddiad a ddosbarthwyd oedd trydedd iteriad Fframwaith Peirianneg Sifil De-orllewin Cymru; fe'i cyflwynwyd yn wreiddiol gyda phedwar awdurdod

yn unig, ond roedd bellach wedi'i ehangu i gynnwys Cyngor Ceredigion. Nodwyd bod y fframwaith ar gyfer amrywiaeth o brosiectau peirianneg sifil y maent ar raddfa fwy fel arfer, ac fe'i cyflwynwyd i gydymffurfio ag amodau Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru ynghylch dyfarniadau grant; byddai hyn yn cyflymu'r broses gan fod yr ymgynghorwyr llwyddiannus wedi bod drwy ymarfer caffael eang. Soniwyd bod hyn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Gyngor Castell-nedd Port Talbot a chydweithwyr ar draws y rhanbarth o ran darpariaeth ymgynghori; gellid cwblhau dyfarniadau uniongyrchol, ond yn y rhan fwyaf o achosion byddai swyddogion yn cynnal cystadlaethau bach ymhlith yr ymgynghorwyr hynny a ffefrir. Dywedodd swyddogion eu bod wedi ceisio adeiladu ar allu, ac y byddent yn cynnwys elfen o hyfforddiant i brentisiaid a gweithwyr proffesiynol, a allai naill ai weithio gyda'r cwmnïau peirianneg sifil a/neu'r ymgynghorwyr pan oedd y fframwaith ar waith; roedd hyn yn golygu y bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i symud rhwng gwahanol gontractwyr/ymgynghorwyr i gael y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol. Ychwanegwyd bod cysylltiadau â cholegau technegol lleol ar draws y rhanbarth ac ar draws y gwahanol ddisgyblaethau a oedd yn ganlyniad cadarnhaol iawn i'r trefniant hwn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch sail y fframwaith gan gynnwys y manteision, yr effeithiau a'r cost-effeithiolrwydd. Cadarnhaodd swyddogion fod y rhesymeg y tu ôl i gyflwyno'r fframweithiau yn gysylltiedig â symleiddio faint o amser ac adnoddau yr oedd eu hangen i'r staff technegol baratoi tendrau bob tro; roedd llawer iawn o waith yn gysylltiedig â'r broses dendro, yn enwedig pan fyddai'n rhaid i staff ddechrau eto bob tro ar brosiect mawr a hefyd y gofyniad i gyhoeddi Hysbysiadau Gwybodaeth Blaenorol (HBG) ar gyfer pob prosiect unigol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gaffael. Nodwyd bod y broses hon yn hir iawn a thrwm, felly drwy lunio fframwaith peirianneg a fframwaith ymgynghori, lleihaodd yr amser hwnnw'n sylweddol. At hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod y dull rhanbarthol yn golygu y gellid rhannu'r llwyth gwaith ar draws y pum awdurdod yn hytrach na gorfod gwneud yr holl waith fel un cyngor; darparwyd enghreifftiau o ffyrdd o weithio a oedd yn cynnwys defnyddio staff a thimau'r awdurdodau eraill i helpu i gyflawni'r broses cyn cwblhau ymarfer caffael ar y cyd. Ychwanegodd swyddogion ei fod hefyd yn darparu rhywfaint o gysondeb o ran caffael a rheoli'r contractau ar gyfer yr ymgynghorwyr a'r contractwyr allanol; ar ôl iddynt gael eu cynnwys yn y fframwaith, gallent weld y byddent yn sicr o gael rhywfaint o swm a gwerth gwaith o fewn y rhanbarth, gan olygu y gallent wedyn gynllunio'n unol â hynny i adeiladu eu

hadnoddau a'u cadwyni cyflenwi. Er mwyn i brosiectau ar raddfa lai (y rhai o dan £100,000 mewn gwerth) gael eu cwblhau gan y cyflenwyr lleol llai yn y sir, nodwyd y byddai Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn parhau i weithredu eu rhestr eu hunain o gontractwyr. Hysbyswyd yr Aelodau fod y dull aml-agwedd hwn o ymdrin â'r ymarfer caffael wedi arbed llawer iawn o amser i'r cyngor o ran adnoddau staff ac yn caniatáu i brosiectau symud ymlaen yn gyflymach, ond roeddent yn dal i ganiatáu i swyddogion gynnal ffrydiau prosiect a fyddai'n gweinyddu ac yn goruchwylio'r prosiectau.

Ers cynnal yr ailadroddiadau, nodwyd mai dim ond ar gyfer unrhyw newidiadau mewn rheolau caffael, manyleb a deddfwriaeth iechyd a diogelwch y bu'n rhaid i Swyddogion addasu'r dogfennau.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor hir oedd y gyfradd ymateb i dendrau ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod pob prosiect yn wahanol, yn gyffredinol roedd isafswm cyfnod o amser y byddai contractwr yn ei gael i brisio'r prosiect; byddant yn amrywio yn seiliedig ar ffactorau fel graddfa prosiect. Soniodd swyddogion yr effeithiwyd ar dendro dros y 12 mis diwethaf ar draws y diwydiant ym maes adeiladu, mewn peirianneg ac eiddo, o ganlyniad i'r pandemig; bu'n anodd i gwmnïau ddychwelyd eu costau mewn cyfnod penodol, felly mewn rhai amgylchiadau roedd yn ofynnol rhoi amser ychwanegol i gontractwyr.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME

# March 2021 – 2022

# CONTENTS

| COMMITTEE | Officer Responsible |
|---|---|
| Cabinet Scrutiny Committee | **Charlotte Davies / Chloe Plowman** |
| Education, Skills and Culture Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee | **Charlotte Davies** |
| Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee | **Charlotte Davies** |
| Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |
| Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee | **Chloe Plowman** |
| Streetscene and Engineering Scrutiny Committee | **Chloe Plowman** |

# <u>Cabinet Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)</u>

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 8th March | Budget Special (please see Cabinet FWP for items) | Hywel Jenkins |
| | | |
| 16th March | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 7th April | Meeting cancelled | |
| | | |
| 12th May | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 2nd June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 30th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 28th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 1st September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 20th October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th November | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 15th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 12th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th February | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 6th April | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th May | Items to be confirmed | |
| | | |

# Education, Skills and Culture Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 18th March | Update Report on Libraries | Andrew Thomas |
| | Report on the work of Cynnydd and the Wellbeing Service | Andrew Thomas |
| 29th April | Meeting cancelled | |
| 10th June | Items to be confirmed | |
| 22nd July | Items to be confirmed | |
| 2nd September | Items to be confirmed | |
| 14th October | Items to be confirmed | |
| 25th November | Items to be confirmed | |
| **2022** | | |
| 6th January | Items to be confirmed | |
| 17th February | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| 31st March | Items to be confirmed | |
| | | |

**To be scheduled in:**

- Update on Leisure - Andrew Thomas/Paul Walker

# Leisure and Culture Scrutiny Sub Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 1st July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 23rd September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 16th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 10th March | Items to be confirmed | |
| | | |

## Social Care, Health and Wellbeing Scrutiny Committee (All starting 2pm unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 1st April | Update on Homelessness | Angela Thomas |
| | | |
| 13th May | Please see Cabinet FWP for items | |
| | | |
| 24th June | Update Report on the impact of Covid-19 on Disabled Facilities Grants | Angela Thomas |
| | | |
| 29th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 16th September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 21st October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 9th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 20th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 3rd March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 7th April | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

**To be confirmed:**

- Impact of dischargers from hospitals on the availability of care packages. An update on Delayed Transfer of Care (DTOCS) - Angela Thomas

# Regeneration and Sustainable Development Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 16th April | Trends in Domestic Abuse | Claire Jones/Elinor Wellington |
| | | |
| 14th May | Update Report on Active Travel | Ceri Morris |
| | | |
| 25th June | Items to be confirmed | |
| | | |
| 30th July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 10th September | Items to be confirmed | |
| | | |
| 22nd October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 3rd December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 14th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 4th March | Items to be confirmed | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 8th April | Items to be confirmed | |
| | | |

## Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 9th July | Neath Town Centre Anti-Social Behaviour | Elinor Wellington |
| | | |
| 1st October | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th December (2.00 pm) | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 18th March | Items to be confirmed | |
| | | |

## Streetscene and Engineering Scrutiny Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 26th March | Please see Cabinet Board FWP for items | |
| | | |
| 21st May | Items to be confirmed | |
| | | |
| 2nd July | Items to be confirmed | |
| | | |
| 24th September | Annual Parking Report 2020/21 | Steve Cook |
| | Parking Enforcement Operation 2021 | Steve Cook |
| 5th November | Items to be confirmed | |
| | | |
| 17th December | Items to be confirmed | |
| | | |
| **2022** | | |
| 28th January | Items to be confirmed | |
| | | |
| 11th March | Items to be confirmed | |
| | | |
| 29th April | Items to be confirmed | |
| | | |